Alga gwyrddlas

Mae'r algâu hyn yn bresennol yn naturiol mewn llawer o ddyfroedd mewndir, aberoedd a'r môr.

Bydd dŵr cynnes a thywydd braf sefydlog yn symbylu tyfiant algâu, yn enwedig pan fydd y dŵr yn llawn maetholion. Ar adegau gall nifer yr algâu gynyddu'n ormodol gan greu haen wyrddlas dros y dŵr (blwm alga).

Beth yw golwg blwm alga?

Gall y dŵr droi'n wyrdd, gwyrddlas neu wyrdd brown a bydd sawl rhywogaeth yn cynhyrchu arogl mws, priddlyd neu laswelltog. Weithiau bydd tyfiant trwm yn creu ewyn ar draethau.

Yn ystod cyfnodau tawel mae llawer o rywogaethau'n gallu codi'r i'r wyneb i greu llysnafedd gwyrddlas, llwydlas, gwyrdd brown neu ar adegau coch-brown.

Ydy alga gwyrddlas yn beryglus?

Dengys ymchwil fod hanner o'r blymau algâu yn cynhyrchu tocsinau. Gallant achosi problemau os bydd rhywun yn llyncu llawer ohonynt.

Er na fydd llysnafedd alga yn niweidiol ar bob amser, mae'n werth osgoi cyffwrdd â'r algâu a'r dŵr cyfagos. Dylid cymryd gofal gydag anifeiliaid oherwydd gallant fwyta neu lyncu llawer o'r algâu, sydd wedi arwain at farwolaeth yn y gorffennol. Dylai ffermwyr a pherchnogion anifeiliaid anwes gadw anifeiliaid i ffwrdd o ddŵr yn cynnwys algâu fel hyn.

Mae dod i gysylltiad â blymau algâu gwyrddlas hefyd yn gallu achosi brechod croen.

Ydy algâu gwyrddlas yn effeithio ansawdd dŵr yfed?

Nid oes tystiolaeth fod lefelau niweidiol o docsinau algâu gwyrddlas mewn dŵr yfed.

Bydd prosesau trin dŵr modern yn dileu neu'n distrywio tocsinau algâu gwyrddlas sy'n bresennol mewn dŵr heb ei drin.

Camau Dŵr Cymru i daclo algâu?

Byddwn yn monitro ein cronfeydd am alga yn rheolaidd. Er mwyn rhwystro tyfiant algâu gwyrddlas mewn rhai cronfeydd, byddwn yn rhoi gwellt barlys yn y dŵr fel rhan o fesurau rheoli amgylcheddol.

Os bydd algâu gwyrddlas yn bresennol, byddwn yn gosod arwyddion o gwmpas cronfeydd yn gofyn pobl i gadw i ffwrdd o'r dŵr ac i rwystro anifeiliaid rhag cysylltu â'r dŵr.

Beth allwch chi wneud?

Darllen a dilyn y cyngor ar arwyddion algâu gwyrddlas ger ein cronfeydd.

Os bydd tyfiant algâu ar gronfa, cadwch i ffwrdd o'r dŵr ac unrhyw lysnafedd fydd wedi crynhoi ar yr ymyl.

Cadw anifeiliaid i ffwrdd o'r gronfa.

Os yn mwynhau hwylio ac ati, ceisio osgoi cysylltu â, a llyncu'r dŵr. Gwisgo dillad diogelwch a chymryd cawod wedyn.

Osgoi chwaraeon dŵr fel nofio, can?io a hwyl fordio ar gronfeydd yn destun blymau algau gwyrddlas.

Gwybodaeth bellach?

Galwch ni gyntaf ar ein llinell gymorth **0800 052 0130**.

Un o'n rheoleiddwyr, yr Arolygaeth Dŵr Yfed, sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd uchel cyflenwadau dŵr cyhoeddus. Gwefan **www.dwi.gov.uk**

Llinell argyfwng amgylcheddol 24 awr Asiantaeth yr Amgylchedd: **0800 80 70 60**